LC547

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2002**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r prif orchymyn mewn perthynas â'r materion a nodwyd ym mharagraffau (a) a (b) yn y nodyn esboniadol ac yn ogystal yn ystyried y pwyntiau a nodwyd gan y Pwyllgor hwn yn ei adroddiad ar y prif orchymyn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn hwn gan yr ymddengys ei fod wedi'i ddrafftio'n ddiffygiol yn y ffordd ganlynol:

Mae awgrym bod erthygl 2(8)(a) yn diwygio erthygl 6(3) y prif orchymyn drwy roi "3(3)(h)" yn lle "3(10)". Ond nid yw erthygl 6(3) yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at "3(3)(h)" ac mae cyfeiriad eisoes at "3(10)". Mae'r un pwynt yn gymwys mewn perthynas â'r ddarpariaeth gyfatebol yn y testun Cymraeg.

Mae'n bosibl bod y ddarpariaeth hon wedi'i chopïo'n anfwriadol o orchymyn diwygio cyfatebol yn Lloegr sy'n cywiro gwall yn y gorchymyn i Loegr nad yw yn y gorchymyn i Gymru.

Ar y sail mai gwall gweinyddol yn unig ydyw, ystyrir ei bod yn briodol i'r paragraff dan sylw gael ei hepgor o'r gorchymyn argraffedig.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

15 Hydref 2002